**Tystysgrif Sylfaen mewn Cymraeg Ail Iaith: Defnyddio'r Gymraeg**
**PRAWF SIARAD ENGHREIFFTIOL**
**CYFLWYNIAD**

Mae 3 rhan i'r prawf llafar, sy'n para tua 10-12 munud. Bydd pob rhan o'r prawf yn cael ei recordio a'u hasesu'n allanol. Defnyddir naill ai fersiwn y De neu fersiwn y Gogledd, yn dilyn y ffurfiau sy'n cael eu dysgu ar y cyrsiau mwyaf cyffredin. Does dim cyfnod paratoi. Mae'r ymgeisydd yn cael 'Taflen yr Ymgeisydd' pan fydd yn mynd i mewn i'r ystafell gyfweld, ac yn cael munud i edrych ar Ran 1 cyn dechrau.

**Rhan 1 – Cael Gwybodaeth**

Yma, mae'r ymgeisydd yn gofyn cwestiynau i'r cyfwelydd i gael gwybodaeth sydd ar goll mewn testun, e.e. hysbyseb neu hysbysiad. Asesir gallu'r ymgeisydd i ofyn cwestiynau cywir sydd hefyd yn briodol o ran cynnwys. Bydd y cyfwelydd yn ateb y cwestiynau'n gryno. Mae'n bosib ennill hyd at 40 marc yn y rhan hon.

**Rhan 2 – Siarad amdanoch chi eich hun**

Yma, mae'r cyfwelydd yn rhoi dewis o gardiau i'r ymgeisydd – A,B neu C. Ar bob cerdyn mae 5 pwnc gwahanol. Rhestrir y pynciau posibl yn y llyfryn i ymgeiswyr a'r fanyleb – mae 28 ohonynt i gyd. Gall yr ymgeisydd edrych ar y pynciau am hyd at hanner munud, yna rhaid dweud rhywbeth am ei brofiad / ei phrofiad ei hun mewn perthynas â phob un o'r pynciau. Bydd y cyfwelydd yn gofyn cwestiynau i'r ymgeisydd ar ôl pob pwnc. Asesir gallu'r ymgeisydd i siarad yn gywir, i ddefnyddio ystod o batrymau a geirfa i ynganu Cymraeg, i siarad yn rhugl ac i ryngweithio â'r cyfwelydd, h.y. i ateb y cwestiynau'n briodol. Mae'n bosib enill hyd at 120 marc yn y rhan hon.

**Rhan 3 – Gofyn cwestiynau**

Yma, rhaid i'r ymgeisydd ddewis *un* o'r pynciau sydd ar y cerdyn, a gofyn cwestiynau am brofiad y cyfwelydd, mewn perthynas â'r pwnc hwnnw. Asesir gallu'r ymgeisydd i ofyn cwestiynau'n gywir ac i ryngweithio â'r cyfwelydd, h.y. i ofyn sgil-cwestiynau priodol.

Rhoddir rhai sylwadau ar y prawf isod fesul rhan, ar sail yr enghreifftiau fideo. Bwriedir y rhain fel arwydd yn unig o sut basai'r ymgeisydd yn perfformio mewn prawf byw.

***Foundation Level Certificate in Welsh Second Language: Using Welsh***
***EXAMPLE SPEAKING TEST***
***INTRODUCTION***

*There are 3 parts to the speaking test, which lasts approximately 10-12 minutes. Each part of the test will be recorded and assessed externally. Either the South Wales or North Wales version is used, following the forms which are used on the most commoly used courses. There is no preparation time. The candidate is given 'The Candidate's Sheet' when he or she goes to the interview room, and has 1 minute to read Part 1 before starting.*

***Part 1 – Getting Information***

*Here, the candidate asks the interviewer questions to get information which is missing in a text, e.g. an advertisement or notice. The candidate is assessed on his/her ability to ask correct question which are also appropriate in content. Up to 40 marks are awarded in this part. The interviewer will answer the questions briefly.*

***Part 2 – Talking about yourself***

*Here, the interviewer gives the candidate a choice of cards – A, B or C. On each card there are 5 different topics. The possible topics are listed in the candidate booklet and the specification – there are 28 in total. The candidate can look at the topics for up to half a minute, and must then say something about his/her experience in relation to each one of the topics. The interviewer will ask the candidate questions after each topic. These are the assessment criteria: the candidate's ability to speak accurately, to use a range of patterns and vocabulary, to pronounce Welsh, to speak fluently and to interact with the interviewer, i.e. to answer the questions appropriately. Up to 120 marks are awarded for this part.*

***Part 3 – Asking questions***

*Here, the candidate must choose one of the topics on the card, and ask the interviewer about his/her experience in relation to that topic. The assessment criteria are: the candidate's ability to ask questions accurately and to interact with the interviewer, i.e. to ask appropriate follow-up questions.*

*Some comments are given for each part below, on the basis of the video examples. This is meant as an indication only of how the candidate would perform in a live test.*

***

Dyma'r testun gyda bylchau a ddefnyddir yn y prawf enghreifftiol ar gyfer Rhan 1:
*Here is the text with gaps used in the example test for Part 1:*

**Canolfan Hamdden Bryn Mawr**

Mae Canolfan Hamdden Bryn Mawr wedi agor!
Mae'r pwll nofio ar gael.
Erbyn mis ________, bydd y trac rhedeg
yn barod.
Dydd Sadwrn nesa, bydd y chwaraewr tennis enwog,
________, yn agor y ganolfan hamdden.
Bydd y seremoni'n dechrau
am ________ o'r gloch.

Mynediad dydd Sadwrn:
£________.
Mae'n hawdd ffeindio'r ganolfan –
dim ond ________ milltir o'r ysgol.
Croeso!

**Enghraifft 1 – Mair a Jeanne (Fersiwn y De)**
***Example 1 – Mair and Jeanne (South Wales Version)***

**Rhan 1 – Cael gwybodaeth**
***Part 1 – Getting information***

Mae'r cwestiynau gan yr ymgeisydd i gyd yn gywir ac yn gwbl briodol i gael y wybodaeth goll. Byddai'r ymgeisydd yn cael marciau llawn am y rhan hon mewn prawf byw. Mae'n gwbl dderbyniol defnyddio cwestiynau amgen, e.e. mae hi'n gofyn 'Sawl milltir yw'r ganolfan hamdden o'r ysgol?' er y gallai fod wedi gofyn 'Pa mor bell o'r ysgol yw'r ganolfan hamdden?'

*The candidate's questions are all accurate and fully appropriate to get the missing information. The candidate would achieve full marks in this section in a live test. It's perfectly acceptable to use alternative questions, e.g. she asks 'Sawl milltir yw'r ganolfan hamdden o'r ysgol?' although she could have asked 'Pa mor bell o'r ysgol yw'r ganolfan hamdden?'*

**Rhan 2 – Siarad amdanoch chi eich hun**
***Part 2 – Talking about yourself***

Dyma'r pynciau ar y cerdyn a ddewiswyd:
Taswn i'n 18 eto
Y penwythnos diwetha
Dysgu Cymraeg
Dillad
Teithio
Mae'r ymgeisydd yn siarad yn eitha cywir, er bod rhai camgymeriadau cystrawen, e.e. cymysgu'r gorffennol a'r amherffaith, a chymysgu'r amodol a'r dyfodol. Fodd bynnag, mae ganddi ystod dda iawn o batrymau gan gynnwys y gorffennol a geirfa briodol. Mae'r ynganu'n arbennig o dda ac yn glir bob amser. Mae hi'n siarad yn rhugl ac yn cysylltu brawddegau heb lawer o oedi gan fynegbostio'r disgwrs yn arbennig o dda. Llwydda i ymateb i gwestiynau'r cyfwelydd yn ddiffwdan. Mae'r argraff a roddir yn dda iawn, ac mae'r ymgeisydd yn gallu estyn ymatebion yn rhwydd.

*Here are the topics on the chosen card:*
*If I were 18 again*
*Last weekend*
*Learning Welsh*
*Clothes*
*Travel*
*The candidate speaks fairly accurately, although there are some syntax errors, e.g. mixing the past and imperfect, and mixing the conditional and future tenses. However, she has a very good range of patterns including the past, and appropriate vocabulary. Her pronunciation is particularly good and clear at all times. She speaks fluently and connects sentences without much delay, signposting the discourse very well. She succeeds in*

*responding to the interviewer's questions without difficulty. The impression given is very good, and the candidate is able to extend responses with ease.*

**Rhan 3 – Gofyn cwestiynau**
***Part 3 – Asking questions***

Mae'r ymgeisydd yn dewis y pwnc 'teithio' i holi'r cyfwelydd. Mae'r sgil-gwestiynau'n addas (er ei bod yn cloffi ychydig wrth ofyn am 'hoff bwnc' y cyfwelydd ar ei gwyliau). Mae hi'n cymysgu amserau weithiau, e.e. 'Ble faswn i'n mynd y penwythnos nesa?' Yn y diwedd, mae hi'n llwyddo i ofyn amrywiaeth o gwestiynau pwrpasol. Felly, er bod rhai gwallau, mae hi'n llwyddo i drosglwyddo ystyr, ac yn gofyn rhai sgil-gwestiynau da iawn.

*The candidate choses the topic 'travel' to ask questions to the interviewer. The follow-up questions are appropriate (although she stumbles slightly when asking the interviewer about her 'hoff bwnc' on holiday). She mixes tenses sometimes, e.g. 'Ble faswn i'n mynd y penwythnos nesa?' In the end, she succeeds in asking a variety of relevant questions. Therefore, although there are some errors, she manages to communicate meaning, and asks some very good follow-up questions.*

***

**Enghraifft 2 – Lowri ac Andy (Fersiwn y Gogledd)**
**Example 2 – Lowri and Andy (North Wales Version)**

**Rhan 1 – Cael gwybodaeth**
***Part 1 – Getting information***

Mae'r ymgeisydd yn llwyddo i ofyn cwestiynau'n gywir, er bod rhai mân wallau treiglo. Mae'n oedi ychydig cyn gofyn cwestiynau ac yn cael trafferth gofyn cwestiwn priodol i lenwi'r bwlch gwybodaeth olaf. Serch hynny, mae'n llwyddo i ofyn cwestiynau priodol i gael y wybodaeth angenrheidiol.

*The candidate succeeds in asking questions accurately, although there are some minor mutation errors. He pauses before asking questions and has some difficulty forming an appropriate question to complete the last information gap. However, he succeeds in asking appropriate questions to get the necessary information.*

**Rhan 2 – Siarad amdanoch chi eich hun**
***Part 2 – Talking about yourself***

Dyma'r pynciau ar y cerdyn a ddewiswyd:
Gwaith
Yr ardal
Y penwythnos diwetha
Anifeiliaid
Dathlu

Mae'r ymgeisydd yn siarad yn eitha cywir, gyda rhai camgymeriadau cystrawen a gwallau eraill ar brydiau.  Fodd bynnag, mae'r ystod yn dda iawn, ac mae'n llwyddo i ddefnyddio amserau gwahanol, gan gynnwys y gorffennol, a geirfa anarferol yn briodol.  Mae'r ynganu'n dda, ac mae'n siarad yn rhugl gan gysylltu brawddegau, er bod peth oedi.  Llwydda i ymateb yn ddiffwdan i sgil-gwestiynau'r cyfwelydd, ac i estyn ei ymatebion ei hun mewn ffyrdd gwahanol.

*Here are the topics on the chosen card:*
*Work*
*The area*
*Last weekend*
*Animals*
*Celebrating*
*The candidate speaks fairly accurately, with some syntax and other errors.  However, the range is very good, and he succeeds in using different tenses, including the past, and unusual vocabulary appropriately.  Pronunciation is good, and he speaks fluently connecting sentences, although there is some delay.  He manages to respond with ease to the interviewer's questions, and to extend his responses in different ways.*

**Rhan 3 – Gofyn cwestiynau**
***Part 3 – Asking questions***

Mae'r ymgeisydd yn gofyn cwestiynau niferus i'r cyfwelydd am y pwnc 'gwaith'.  Mae rhai gwallau, ond mae'n llwyddo i gyfathrebu a chyfleu'r ystyr yn iawn.  Wrth ryngweithio, mae'n ymateb yn dda iawn i'r hyn y mae'r cyfwelydd yn ei ddweud, gan fynegi syndod, ailadrodd rhan o'i hateb hi er mwyn cadarnhau dealltwriaeth a gofyn cwestiwn dilynol rhesymegol.  Defnyddia ystod lawn o amserau, er nad yw 'ystod' yn un o feini prawf asesu'r rhan hon.

*The candidate asks the interviewer a number of questions on the topic of 'work'.  There are some errors, but he succeeds in communicating and conveying meaning appropriately.  When interacting, he responds very well to what the interviewer says, expressing surprise, repeating part of her answer to confirm understanding and asking a logical follow-on question.  He uses a full range of tenses, though 'range' is not one of the criteria for this part.*